

SL(6)666 – Cod Ymarfer ar arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol mewn perthynas â Rhan 4 (taliadau uniongyrchol a dewis o lety) a Rhan 5 (codi ffioedd ac asesiadau ariannol) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Cefndir a diben

Dyroddir y Cod Ymarfer hwn ("y Cod") o dan adran 145 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ("y Ddeddf"). Rhaid i awdurdodau lleol, wrth arfer eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol, weithredu yn unol â'r gofynion a geir yn y Cod.

Mae'r Cod wedi'i ddiwygio i ychwanegu cynllun cydnabyddiaeth ariannol a gyflwynwyd yn ddiweddar at y rhestr o fathau o gyfalaf y dylid eu diystyru'n llwyr yn yr asesiad ariannol ar gyfer codi ffioedd am bob math o ofal a chymorth.

Cyflwynwyd y cynllun yn Rheoliadau Gofal a Chymorth (Gosod Ffioedd) ac (Asesiad Ariannol) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2025.

Y cynllun cydnabyddiaeth ariannol i'w ychwanegu at y Cod yw'r Cynllun Cydnabyddiaeth Ariannol Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsryweddol.

Mae llunio Cod diwygiedig hefyd yn gyfle i ychwanegu cyfeiriad at reoliadau diwygio codi ffioedd ac asesiadau ariannol sydd wedi dod i rym ers y diwygiad blaenorol. I'r perwyl hwn, cyfeirir at Reoliadau Gofal a Chymorth (Gosod Ffioedd) (Cymru) (Diwygio) 2024 a Rheoliadau Gofal a Chymorth (Gosod Ffioedd) ac (Asesiad Ariannol) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2025 yn y Cod diwygiedig fel y bo'n briodol. Gwneir y diwygiadau hyn i sicrhau bod y Cod yn glir ac yn gyflawn gan fod y rheoliadau yn diwygio'r prif reoliadau y cyfeirir atynt eisoes yn y Cod. Mae'r Cod diwygiedig hefyd yn cynnwys diwygiadau golygyddol a diwygiadau o ran arddull.

Gweithdrefn

Drafft negyddol

Rhaid gosod drafft o'r cod gerbron y Senedd. Os bydd y Senedd, o fewn 40 niwrnod (ac eithrio unrhyw adeg pan fo'r Senedd wedi'i diddymu neu ar doriad am fwy na 4 diwrnod) i'r dyddiad y gosodwyd y drafft, yn penderfynu peidio â chymeradwyo'r cod drafft, ni chaiff Gweinidogion Cymru ddyroddi'r cod.



Os na wneir penderfyniad o'r fath, rhaid i Weinidogion Cymru ddyroddi'r Cod (ar ffurf y drafft), a daw'r cod i rym ar ddiwrnod a bennir drwy orchymyn a wneir gan Weinidogion Cymru.

Gwaith craffu o dan Reol Sefydlog 21.7

Nodwyd y 9 pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.7 mewn perthynas â'r cod hwn.

1. Mae'r Cod hwn wedi'i osod yn lle fersiwn flaenorol o'r Cod a dynnwyd yn ôl yn dilyn trafodaeth y Pwyllgor ar y fersiwn flaenorol ar 16 Mehefin 2025. Nodwyd 30 o bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt a chafwyd ymateb gan Lywodraeth Cymru. Mae paragraff 2.2 o'r Memorandwm Esboniadol yn dweud:

Mae'r Cod diwygiedig hwn yn mynd i'r afael â materion a nodwyd ar gyfer eu cywiro yn y Cod diwygiedig drafft a osodwyd ar 3 Mehefin 2025 ac a gafodd ei dynnu yn ôl wedi hynny ar 27 Mehefin 2025, SL(6)6171.

Er bod y rhan fwyaf o'r materion a nodwyd wedi cael sylw, gofynnir am eglurhad ynghylch rhai o'r pwyntiau adrodd blaenorol, fel y nodir isod.

2. Mae adran 146(1) o'r Ddeddf yn dweud - "Cyn dyroddi neu ddiwygio cod o dan adran 145, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag unrhyw bersonau sy'n briodol yn eu barn hwy ynghylch drafft o'r cod (neu'r cod diwygiedig)."

Gofynnwyd i Lywodraeth Cymru esbonio, mewn perthynas â'r Cod a dynnwyd yn ôl, sut yr oedd o'r farn bod y penderfyniad i beidio â chynnal ymgynghoriad yn cydymffurfio ag adran 146(1) o'r Ddeddf.

Dyma a nodwyd yn yr ymateb:

Rhoddwyd ystyriaeth i'r ddarpariaeth hon ac nid yw Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn addas ymgynghori ag unrhyw bersonau ar yr achlysur hwn o ystyried y graddau y mae'r cynnig yn ceisio diwygio'r Cod presennol.

Mae'r prif ddiwygiad yn golygu ychwanegu cynllun cydnabyddiaeth ariannol a gyflwynwyd yn ddiweddar at y rhestr o fathau o gyfalaf y dylid eu diystyru'n llwyr yn yr asesiad ariannol ar gyfer codi ffioedd am bob math o ofal a chymorth. Mae'r cynllun cydnabyddiaeth ariannol yn gynllun sydd newydd ei gyflwyno ac o gofio bod Rheoliadau Gofal a Chymorth (Gosod Ffioedd) ac (Asesiad Ariannol) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2025, sy'n diwygio Rheoliadau Gofal a Chymorth (Asesiad Ariannol) (Cymru) 2015 i ychwanegu'r cynllun newydd at y rhestr o gyfalaf i'w ddiystyru, wedi dod i rym ar 7 Ebrill 2025, bydd y diwygiad i'r Cod yn adlewyrchu'r gyfraith sydd mewn grym ar hyn o bryd. Mae awdurdodau lleol felly mewn sefyllfa niwtral. Mae buddiolwyr y cynllun cydnabyddiaeth ariannol yn annhebygol o wrthwynebu'r diwygiad i'r Cod, gan eu bod yn amlwg yn elwa ar y cyfalaf yn cael ei ddiystyru.



O ystyried y rhesymeg hon, yn ogystal â cheisio osgoi rhanddeiliaid yn syrffedu ar y broses ymgynghori mewn amgylchiadau fel hyn, nid yw Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn addas ymgynghori ag unrhyw bersonau yn yr achos hwn.

Fodd bynnag, nodir yn y Memorandwm Esboniadol i'r Cod hwn:

Cynhaliwyd ymarfer ymgynghori 3 wythnos ar y Cod diwygiedig drafft rhwng 26 Medi a 17 Hydref 2025. Ysgrifennodd Llywodraeth Cymru at Gyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol y 22 awdurdod lleol yn tynnu sylw at y diwygiadau technegol arfaethedig i'r Cod, gan ddarparu drafft o'r Cod diwygiedig i fwrw golwg drosto a chan wahodd adborth a sylwadau.

Ni chafodd Llywodraeth Cymru unrhyw ymatebion i'r ymgynghoriad. Roedd hyn i'w ddisgwyl, gan fod y newidiadau arfaethedig i'r Cod naill ai'n adlewyrchu darpariaethau cyfreithiol presennol sydd eisoes mewn grym neu yn ddiwygiadau technegol a golygyddol nad ydynt yn newid gweithrediad creiddiol y Cod.

3. Ym mharagraff 5.22 o'r Cod, mae gwahaniaeth rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg. Mae'r testun Saesneg yn dweud "from the date that **care and support** was first provided" ond yn y testun Cymraeg nodir "o'r dyddiad y rhoddwyd **y datganiad** yn gyntaf".
4. Yn Atodiad D, ym mharagraff 4.3, yn y pwyntiau bwled olaf, mae'r term "qualifying relative" wedi'i fynegi drwy ddefnyddio'r term "perthynas **cymhwysol**" yn y testun Cymraeg, ond y term diffiniedig yn Atodlen 2 i Reoliadau Gofal a Chymorth (Asesiad Ariannol) (Cymru) 2015 yw "perthynas **cymwys**".
5. Yn Atodiad D, ym mharagraff 5.5, yn y frawddeg olaf, mae gwahaniaeth rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg. Mae'r testun Saesneg yn dweud "The local authority should **advise...**" ond yn y testun Cymraeg nodir "Dylai'r awdurdod lleol **nodi...**". Yn gynharach yn y paragraff hwnnw, defnyddiwyd y gair "cynghori" yn hytrach na "nodi" i fynegi ystyr y gair "advise", ac felly mae hynny'n golygu bod y testun Cymraeg yn anghyson hefyd.

Codwyd y pwynt hwn mewn perthynas â'r Cod a dynnwyd yn ôl a dyma oedd ymateb Llywodraeth Cymru i'r pwynt adrodd:

Defnyddir y ferf "advise" ym mharagraff 5.5 o Atodiad D i'r Cod diwygiedig drafft mewn dwy ffordd wahanol. Mae'r defnydd cyntaf yn cyfeirio at rwymedigaeth y dylai'r awdurdod lleol roi cyngor neu arweiniad i bobl mewn perthynas ag ystyried sut y maent yn bwriadu defnyddio, cynnal ac yswirio eu heiddo, ac mae'r ail ddefnydd o'r ferf yn ymwneud â'r awdurdod lleol yn rhoi gwybodaeth swyddogol, h.y. nodi a yw'n bwriadu gosod unrhyw amodau ar sut y mae'r eiddo yn cael ei ddefnyddio etc. tra ei fod yn destun unrhyw Gytundeb Taliadau Gohiriedig. Mae



Llywodraeth Cymru o'r farn bod yr eirfa a ddefnyddir yn y testun Cymraeg felly yn gyson â'r gwahanol ddefnydd o'r gair "advise" yn y testun Saesneg.

Gofynnir i Lywodraeth Cymru gadarnhau ai dyna yw ei barn o hyd.

6. Yn nhestun Saesneg y Cod, "DPA" yw'r term diffiniedig ar gyfer "deferred payment agreement", ac yn y testun Cymraeg, yr ymadrodd llawn, sef "cytundeb taliadau gohiriedig", yw'r term cyfatebol a nodir ym mharagraff 9.2 o'r Cod. Fodd bynnag, mae gwahaniaethau dro ar ôl tro rhwng testun Cymraeg a thestun Saesneg y Cod, o ran y defnydd o "DPA", "deferred payment agreement" ac "agreement" yn y testun Saesneg, a "cytundeb taliadau gohiriedig" a "cytundeb" yn y testun Cymraeg, fel a ganlyn—
- a) yn Atodiad B, ar ddiwedd paragraff 2.16, mae'r testun Saesneg yn dweud "Deferred Payment Agreement" yn hytrach na defnyddio'r term diffiniedig "DPA". Mae hyn hefyd yn digwydd yn nhestun Saesneg paragraff 8.13 o Atodiad C i'r Cod;
 - b) yn Atodiad D, ym mharagraff 5.3, yn y pwyntiau bwled, mae gwahaniaethau dro ar ôl tro rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg, o ran y defnydd o "DPA" ac "agreement" yn y testun Saesneg a'r ffordd y caiff hynny ei gyfleu yn y testun Cymraeg—
 - i) yn y pwynt bwled cyntaf, a'r ail, yr unfed ar ddeg a'r deuddegfed, mae'r testun Saesneg yn dweud "agreement", ond defnyddir yr ymadrodd llawn yn y testun Cymraeg, sef "cytundeb talu gohiriedig";
 - ii) yn yr wythfed pwynt bwled, mae'r testun Saesneg yn dweud "DPA", ond defnyddir yr ymadrodd "taliadau gohiriedig" yn y Gymraeg;
 - c) yn Atodiad D, mae'r testun Saesneg yn dweud "the DPA" ond mae'r testun Cymraeg yn dweud "y cytundeb" ym mharagraffau 9.2, 9.3, 9.5, 9.8, 10.1 (gan gynnwys y pennawd), 10.2, 10.3, 10.4, 10.5 ac 11.9;
 - d) yn Atodiad F, ym mharagraff 5.1, yn y testun Saesneg, diffinnir yr ymadrodd "deferred payment agreement" eto fel "DPA", ond mae eisoes wedi'i ddiffinio ym mharagraff 9.2 o'r Cod. Yn ogystal, ym mharagraff 6.1 o Atodiad F, defnyddir "DPA" ddwywaith yn y testun Saesneg, ond yn y testun Cymraeg defnyddir yr ymadrodd "cytundeb o'r fath" yr ail waith.



7. Mae enghreifftiau o ddefnyddio "the agreement" yn lle "DPA" yn y testun Saesneg ac "y cytundeb" yn lle'r ymadrodd llawn ("cytundeb taliadau gohiriedig") yn y testun Cymraeg. Mae hyn yn digwydd ym mharagraffau 4.3 (yn y pwynt bwled cyntaf), 5.1, 10.3, 10.4 (yn y geiriau agoriadol), 10.5, ac 11.1(a) o Atodiad D. Gofynnir hefyd, ym mharagraff 3.2 o Atodiad D, a ddylid defnyddio'r term diffiniedig yn lle "deferred payment" yn y testun Saesneg, a'r ymadrodd llawn yn lle "taliad gohiriedig" yn y testun Cymraeg.

Yn ogystal, defnyddir "agreement" yn y testun Saesneg a "cytundeb" yn y testun Cymraeg yng nghyd-destun cytundeb ysgrifenedig gwahanol ym mharagraffau 8.5, 8.6, 8.12 ac 8.16 o Atodiad C, a allai fod yn ystyriaeth hefyd.

8. Yn Atodiad D, ym mharagraff 6.4, mae'r testun Saesneg yn dweud "as part of the administrative costs local authorities can charge for putting a DPA, should they wish to do so." Mae'r testun Cymraeg yn nodi "fel rhan o'r costau gweinyddol y gall awdurdodau lleol eu codi am roi cytundeb taliadau gohiriedig ar waith, os dymunant wneud hynny" sy'n awgrymu bod y geiriau "in place" ar goll yn y testun Saesneg ar ôl "a DPA" er mwyn mynegi "ar waith".
9. Dyma oedd ymateb Llywodraeth Cymru i bwynt adrodd 28 mewn perthynas â'r Cod a dynnwyd yn ôl:

Cyn ailosod y Cod diwygiedig drafft, bydd paragraff 3.1 o Atodiad F i'r testun Saesneg yn cael ei ddiwygio i egluro'r amserlen enghreifftiol ar gyfer cronni dyledion. Yn lle'r geiriau:

""if an invoice was issued giving 30 days to pay, the payment becomes due on day 30 and a debt accrues if this is not met"

rhoddir:

"if an invoice was issued where payment is due on or before 30 calendar days from date of invoice, payment of the invoice becomes overdue at 31 calendar days from date of invoice, and a debt will accrue from that day".

Bydd y testun Cymraeg yn cael ei ddiwygio i gyfateb i'r testun Saesneg.

Yn ogystal, yn lle'r gair "anfon" rhoddir "dyroddi" i gyfateb i "issue" yn y testun Saesneg.

Fodd bynnag, nid yw'r Cod diwygiedig yn cynnwys y geiriad diwygiedig hwn, ac mae'r geiriad gwreiddiol wedi'i ddileu. Gofynnir i Lywodraeth Cymru pam y defnyddiwyd dull gwahanol i'r un a nodir yn yr ymateb.



Ymateb y Llywodraeth

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru i bwyntiau adrodd 3 i 9.

Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 17 November 2025 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.

